**Cofnodion Cyfarfod Arbennig Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher Mehefin 24ain 2020, cyfarfod Zoom am 5.00yh. (Dechreuodd y cyfarfod am 5.04 fel bod pawb wedi gallu ymuno)**

**Presennol:** Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas, Roy Tickle, Catherine Jones, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Alyn Ashworth, Dyfrig Berry, Philip Stevens, Lara Pritchard & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Carys Jones (Cynorthwyydd Dinesig)

**Arsylwi:** Cynghorydd Gwyneth Kensler, Jez Hemming, Mathew Richards, Barbara Manley, Frances Williams & Mair Jones.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Irene Williams & Glenn Swingler

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod arbennig y cyngor ym mis Mehefin trwy Zoom.

**195. Datganiad Diddordeb Personol: Dim**

**196. Trafod materion a godwyd mewn perthynas â cherflun H M Stanley**

Cafwyd trafodaethau ynghylch cerflun H M Stanley. Cafodd pob Cynghorydd tref gyfle i siarad yn nhrefn yr wyddor

Cynigiodd y Cyng Catherine Jones y dylid symud y cerflun ar unwaith ac eiliwyd hyn gan y Cyng Rob Parkes.

Gwnaethpwyd gwrthgynnig gan y Cyng Roy Tickle a'i eilio gan y Cyng Lara Pritchard i adael y cerflun fel y mae a chael ymgynghoriad cyhoeddus pan fydd y sefyllfa bresennol yn caniatáu cyfarfod cyhoeddus.

Pleidleisiodd y cynghorwyr tref ar y cynigion.

Pleidleisiodd 5 cynghorydd o blaid y cynnig cyntaf a phleidleisiodd 6 dros y gwrthgynnig.

Ni ofynnodd y cynghorwyr tref am fanylion ar sut y pleidleisiodd yr aelodau gael eu gynnwys yn yr cofnodion (P13.2 Atodlen 12 deddf 1972)

Penderfynwyd y bydd y mater yn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus unwaith y bydd y cyfyngiadau cloi cyfredol wedi'u codi a'i fod yn ddiogel i bawb sy'n bresennol.

Diolchodd y Maer, Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle i bawb am ddod.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 5.54 yh.

Arwyddwyd:.................................................................(cadeirydd)

Dyddiad..........................................